CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 30.09.2010 AM 7.30PM A GYNHALIWYD YN NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN

1. **CROESO GAN Y CADEIRYDD**
Croesawodd y Maer Rob Phillips yr holl aelodau i'r Cyfarfod.
Offrymwyd gweddi gan y Cyng. John Davies

YN BRESENNOL
Cyng Maer Rob Phillips (Cadeirydd);
Dirprwy-Faer Robert (Hag) Harris (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis;
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Kistiah Ramaya & Selwyn Walters;

Y Plismon Richard Marshall;
Gohebydd y Wasg sy'n gweithio ar liwt ei hun Mr Carl Stringer;
Mr Dafydd Pugh-Jones, Rheolwr Gofal a Thrwsio, Ceredigion;
Mrs Anthea Jones; Swyddog Gofal a Thrwsio (Canolbarth Ceredigion).

2. **CYFLWYNIAD GOFAL A THRWSIO CEREDIGION**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Dafydd Pugh-Jones a Mrs Anthea Jones, cynrychiolwyr y mudiad Gofal a Thrwsio, Ceredigion. Sefydlwyd ym 1995 i gynnig cyngor a chymorth i bobl hŷn a'r bregys anabl i'w galluogi i gadw'n annibynnol ac i aros yn eu cartrefi cyhyd â phosibl. Y mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac ar gael ar gyfer perchenogion tai a thenantiaid preifat. Ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Awdurdod Lleol ac yn ymroi i weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a'r Ymddiriedolaeth GIG.
Y mae cynrychiolwyr *Gofal a Thrwsio Ceredigion* yn ymweld â holl gleientiaid yn eu cartrefi ac yn cynnig gwasanaeth amrywiol sy'n ymwneud â gwelliannau/addasiadau i'r tŷ; materion technegol/effeithlonrwydd ynni yn y cartref; cynnig cyngor ar fudd-daliadau a grantiau posibl; ac os yn berthnasol, eu cyfeirio at asiantaethau eraill. Beth bynnag, nid yw'r mudiad yn talu am y gwaith; cynnig argymhellion; codi gobeithion na gwarantu'r gwaith.

Gwasanaeth arall a gynigir yw'r *Cynllun Diogelwch Cartref*- gwasanaeth ymweld â'r cartref ar gyfer pobl hŷn i asesu a chynghori ar ddiogelwch yn y cartref. Bydd unrhyw waith sydd wedi'i gytuno yn cael ei wneud am ddim gan eu Crefftwyr Diogelwch Cartref. Mae'r Cynllun yn trafod materion megis Atal damweiniau a chwympo; diogelwch yn y cartref; diogelwch tân; cadw'n ddiogel yn y tŷ ac arbed ynni.
Gellir cysylltu â'r Swyddfa Gofal a Thrwsio, Bodlondeb, Penparcau, Aberystwyth SY23 1SJ; Ffôn 01970 639920 neu drwy ebost gofalathrwsio@cantref.co.uk Dydd Llun-Dydd Gwener 9-4.30pm. Y mae 2 enghraifft sy'n dangos y mathau o waith y mae *Gofal a Thrwsio* ynghlwm â hwynt yn atodol. (Atodiad 1)

YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Tref Chris Thomas; Dorothy Williams & Derek Wilson.

3. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU
Bu i'r Plismon Richard Marshall ddiweddaru aelodau parthed digwyddiadau diweddar.

3.1 Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llambed – Yn ystod y cyfarfod diwethaf bu i aelodau fynegi consyrn parthed yr adleoliad o bosib o broblemau i ardaloedd nad oedd wedi derbyn y statws Ardal Gwhardd Alcohol. Nid oedd hyn wedi digwydd cyn belled. Y mae'r arfer o yfed alcohol yn dal i fynd yn ei flaen ar Sgwâr Harford a'r Parc-St.Germain-sur-Moine er iddynt dderbyn statws Parth Di-Alcohol yn ddiweddar. Cipiwyd alcohol o feddiant unigolion a bydd un person o bosibl yn derbyn cosb yn ymwneud â'r ddalfa.

3.2 Chwalwyd cerrig beddau mynwent Eglwys San Pedr, yn ddiweddar. Awgrymodd y Dirprwy-Faer y gallai'r Cyngor Tref (CT) lansio Apêl, yn cynnig y cyfle i aelodau'r cyhoedd i wneud cyfraniadau tuag at y gost o atgyweirio'r cerrig beddau. Byddai'n bosibl hefyd i'r CT wneud cyfraniad.
Penderfyniad: Y Maer i grybwyll y syniad gerbron y Parch. Canon Aled Williams.

3.3 Y mae nifer o flychau Elusennau, wedi eu lleoli mewn gwahanol safleodd o fewn y dref, wedi eu dwyn ac arestiad wedi dilyn.

3.4 Y mae hylif-golchydd yn cael ei daflu i'r Ffynnon ar Sgwâr Harford ac fel canlyniad y mae gorlifiad o ewyn yn arllwys ar y palmant.

3.5 Y mae'r fan transit heb dreth a gyfeiriwyd ato yn ystod cyfarfod mis Awst y CT yn dal i fod wedi ei barcio ar y Cwmin**.** Yr heddlu i glustnodi sylw pellach i'r mater.

3.6 Y mae'r nifer o droseddau wedi disgyn yn Llambed, wrth gymharu â blynyddoedd cynt.

4. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

4.1 Bu i'r Cyng. Harris ddatgan buddiant personol a sy'n rhagfarnu yn ystod y drafodaeth yn ymwneud â'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol Cynigion Drafft, Sir Ceredigion. (Cofnod 7.4)

4.2 Bu i'r Cyng. Carter ddatgan buddiant personol pan yn trafod yr ymholiad parthed yr hawl i arddangos ddisgl loeren mewn ardal gadwraeth. (Cofnod 6.7)

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 26ain o Awst 2010
Penderfynwyd bod cofnodion mis Awst yn gofnod cywir.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 i **Sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Rheoli Traffig rhwng cynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion a'r Cyngor Tref:** Enwebwyd y Cyng. Selwyn Walters fynychu'r cyfarfod ar ran y CT. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer y 14eg Ionawr 2011. Bydd cynrychiolaeth ar y pwyllgor yn cynnwys nifer o fudiadau gan gynnwys cynghorau cymuned yr ardal.

6.2 Gwelliannau ar gyfer Sgwâr Harford
Cynhaliwyd cyfarfod safle ar y 9fed o Fedi. Bu i'r Maer lunio rhestr o welliannau a dderbyniodd gymeradwyaeth arwahân i fân newidiadau. (Atodiad 2).
Derbyniwyd llythyr gan un o drigolion hŷn y dref yn mynegi bod y gwelliannau arfaethedig cosmetig i'r Sgwâr heb eu hangen a gofyn tybed a fyddai'n bosibl i gyfnewid y cerrig mân am darmac. Yn ei thŷb hi, roedd y cerrig mân yn

gythrydd damwain, yn enwedig yn ystod tywydd gwlyb pan fo'r cerring yn llithrig. Yn yr ymateb, mynegir ei fod yn fwriad gan y CT i ail-gyfunioni'r cerrig sy'n berygl o ran iechyd a diogelwch. Y mae aelodau o'r farn bod y Sgwâr yn un o nodweddion, holl bwysig y dref ar Ffynnon ei hun yn drysor gwerthfawr. Bwriad y CT yw cadw a diogelu cymeriad canol-bwynt y dref, a fyddai'n debygol o gael ei golli petai penderfyniad yn cael ei wneud i osod tarmac yn yr ardal.

6.3 Arwyddion o fewn y dref:

- Arwydd ar gyfer y ffin Sir Gâr/Ceredigion &
- Arwyddion Bryn-yr-Eglwys/Penbryn & Maesyderi/Gwêl y Creuddyn: disgwylir datblygiadau pellach gan y Cyngor Sir parthed yr uchod.

6.4 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref:Cyng. Wilson i beintio'r hysbysfwrdd yn ystod y dyfodol agos.

6.5 Dolen ar gyfer y safle ar y we – hanes y dref – y mae enwau Meiri'r gorffennol, Tref Llambed, wedi eu harddangos ar safle ar y we y Cyngor Tref.

6.6 Dodrefn y Cyngor Tref: Adroddodd y Cyng. Walters y gallai'r dodrefn, sydd wedi eu storio yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Llambed aros yn eu hunfan yn ystod y dyfodol agos. Bydd angen cartref parhaol arnynt maes o law. Derbyniwyd 2 ymateb i'r erthygl yn y papur newydd y Cambrian News gan Mr Hefin Evans (Brodyr Evans Asiantwyr Ystadau Llambed) a Martin, Rheolwr, Gwesty Tŷ Mawr, Cilcenninn. Ffafrwyd lleoliad o fewn Llambed ei hun. Y Cyng. Walters i gysylltu â Mr Hefin Evans i drafod ei syniad ymhellach.

6.7 Disgl loeren wedi ei harddangos ar y Stryd Fawr: ymholiadau yn mynd yn eu blaen.

6.8 Byntin adroddwd bod aelodau'r Siambr Fasnach wedi disodli'r byntin yr Urdd a oedd wedi ei arddangos drwy'r dref ers diwedd Ebrill eleni.

6.9 Gosod bin sbwriel ar balmant gyferbyn â bwthyn Troedrhiw: gwrthodwyd y cais gan y Cyngor Sir gan nad yw'r cais yn cwrdd â'r gofynion penodedig. Beth bynnag, bydd y CSC yn monitereiddio'r sefyllfa.

6.10 Cyfarfod Canolfan Integredig i Blant 28ain o Fedi 2010: byddai dyfodiad Canolfan Integredig i Blant yn ddatblygiad positif i Lambed.

6.11 CCB Tai Cantref 16.09.2010: nid oedd cynrychiolaeth y Cyngor Tref yn bresennol yn ystod y cyfarfod.

6.12 Penderfynwyd mewn cyfarfod cynt i gyflwyno tarian i Mr Leno Conti fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth ymroddgar i'r dref dros ystod eang o flynyddoedd. Cytunwyd i lynu wrth y penderfyniad gwreiddiol sef i gyflwyno'r wobr yn ystod Seremoni Urddo'r Maer 2011.

7. GOHEBIAETH

7.1 Rheoli Risg o Erydu Arfordirol a Llifogydd: Datblygu Strategaeth Genedlaethol i Gymru. Y CSC yn gofyn i'r Cyngor Tref petaent yn gallu eu cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ynghylch unrhyw feysydd o risg sylweddol o lifogydd y dylid gael eu nodi ac os yn bosibl ddarparu rhai dyddiadau o ba bryd y digwyddodd y llifogydd, eu maint, eu ffynhonnell a'u hachos. Y Cyng. Dafis a Carter i glustnodi sylw pellach i'r mater.

7.2 Cynigion i'w Trafod CCB: Un Llais Cymru 9.10.2010: nodwyd er gwybodaeth.

7.3 Cyfarfod Ymgynghorol Gofal a Thrwsio Ceredigion 20.10.2010: bydd y Dirprwy-Faer yn cynrychioli'r Cyngor Tref yn ystod y cyfarfod hwn.

7.4 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru: Arolwg o Drefniadau Etholiadol Cynigion Drafft, Sir Ceredigion: penderfynwyd cefnogi Dewis Llanbedr Pont Steffan 2 sef cyfuno gydag Adran gyfagos Llangybi (ac eithrio

Wardiau Cyngor Cymuned Gartheli) gan gynyddu'r etholaeth i 3,007 a chreu Adran Etholiadol dau aelod (cymharb 1;1,503) **Penderfyniad:** Y Maer i gyflwyno ymateb cyn y 9.11.2010.

7.5 **Newidiadau i Gasgliadau Gwastraff o'r Cartref Ceredigion:** y mae'r CSC yn ymateb i dargedau y Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn anelu i gyfyngu ar faint y gwastraff a anfonir i dirlenwi. Bydd y gwasanaeth casglu sbwriel o'r cartref yma yng Ngheredigion yn golygu gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu yn wythnosol yn ogystal â chyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff bwyd yn wythnosol, ar gyfer y Sir gyfan. Dylai'r gwastraff fydd ar ôl gan gartrefi, gael ei osod mewn bagiau du a chânt eu casglu bob pythefnos. Byddai'n cael ei gyfleu bod y CT, o dan y system newydd, yn mynegi consyrn parthed y casglu o'r bagiau duon ar gyfer dirlewni, a gallai gael eu gadael tu allan i adeiladau ee fflatiau, a Thai'n cynnwys nifer o ddeiliaid.

7.6 **Cais am feinciau eistedd cyhoeddus ar gyfer y Stryd Fawr:** roedd y gohebydd wrth gefn i'r ymholiad o'r farn ei fod yn ddyledus ar y CT i ddarparu lle eistedd ar gyfer y Stryd Fawr, yn enwedig ar gyfer yr henoed. Dywedodd y Cyng. John Davies, a oedd o blaid y cais, ei fod yn fater hanesyddol ac yn y gorffennol roedd masnachwyr wedi bod yn amharod i ddarparu lle eistedd tu allan i'w siopau. Adroddwyd bod meinciau wedi eu lleoli, ers talwm, y tu allan i'r Tai Tafarn y Llew Du a'r Royal Oak. Byddai'r CT yn ceisio erfyn ar berchenogion adeiladau ar y Stryd Fawr i wirfoddoli'r ddarpariaeth hon.

7.7 **Cyfarfod Ymgynghorol â'r Cyngor Sir:** Tachwedd 2010: dylai materion i'w trafod yn ystod y Cyfarfod gael eu cyflwyno ymlaen llaw at y Cyngor Sir. **Penderfyniad:** i ystyried y fath o gwestiynau y gellir eu cyflwyno.

7.8 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. MATERION CYNLLUNIO

8.1 Caniatâd Cynllunio gan GSC

8.1.1 **Ymgeisydd Daliadau LAS Cyf**: newid defnydd o B1/B2 (Busnes a Diwydiant Cyffredinol) i D2 (Cydosiad & Hamdden) Cais Cynllunio: A100468. Lleoliad: 22 Parc Busnes Llambed. Dyddiad a hysbyswyd gan y CT 28.09.2010.

8.1.2 **Ymgeisydd Mr N Wright**: newid defnydd y llawr gwaelod o'i safle diweddaraf fel uned masnachol, defnydd Dosbarth A1 i le bwyta, defnydd Dosbarth A3. Cais Cynllunio: A100491. Lleoliad: llawr gwaelod, 18 Stryd Fawr, Llambed. Dyddiad a hysbyswyd y CT 18.09.2010.

8.2 **Ceisiadau Cynllunio gan GSC**: (cyflwyno ymateb o fewn 14 diwrnod – dirprwyo swyddogaethau i ddirprwyaeth o'r CT).

8.2.1 **Rhif A100589:** Cais:estyniad llawr cyntaf, gwneud gwelliant i'r adeilad presennol i gynnwys estyniad i'r rhamp ar y fynedfa, a newid i agoriad y ffenest i ffurfio drws ychwanegol i'r fynedfa. **Sylwadau i'w cyflwyno erbyn y 30eg o Fedi: Dim gwrthwynebiad.**

8.2.2 **Rhif A100610CD**: Cais: Codi estyniad i'r bloc Dylunio a Thechnoleg, Ysgol Uwchradd Llambed. Angen ymateb erbyn 30eg o Fedi. **Sylwadau: Dim gwrthwynebiad.**

9. CYLLID

9.1 **Ad-daliad: Prifysgol Cymru** Y Drindod Dewi Sant Llanbedr PS £100 ar gyfer hirio'r Hen Neuadd 7.05.2010 ar gyfer Seremoni Urddo'r Maer.

9.2 **Tâl Band Llydan a Ffôn** 13 Mehefin – 12 Medi £93.67; TAW £16.39

9.3 **Siec Rhif 001868 £40:** Glanhau'r 4 cysgodfan bws Mr Mark Jenkins. Y mae debit uniongyrchol y *Banc Lloyds TSB* wedi ei sefydlu ar gyfer Mr Jenkins sef £20 y mis. Gwobrwywyd y cytundeb glanhau'r 4 cysgodfan bws y dref am £10 ar gyfer pob lloches bws, bob yn ail fis i Mr Jenkins. .

9.4 **Siec Rhif 001869: £1,060:** Mr E.Williams am drin/dacluso'r llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf. Derbyniwyd grant i gwrdd â 75% o'r gost o'r gronfa Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2010 (£795) a 25% o goffrau'r Cyngor Tref.

9.5 **Siec Rhif 001870: £300:** Mr Mike Brown am dorri'r gwair ym Mharc-yr-orsedd Ebrill-fis Medi – un toriad y mis am dal o £50 y toriad.

9.6 **Siec Rhif 001871: Cyfraniad o £25** – Urdd Gobaith Cymru.

9.7 **Siec Rhif 001872: Cyfraniad o £50 –** Relate Ceredigion

9.8 **Siec Rhif 001873:** golau a gwres a chostau storio (clerc) **£20.00**

9.9 **Siec Rhif 001874 - £6.12** – ad-daliad costau stampau (clerc)

9.10 **Siec Rhif 001875 - £10.50** – bagiau sbwriel ar gyfer Cae Maesyderi

9.11 **Siec Rhif 001876** – Cyflog y Clerc Medi **£632.27** (Gros)

9.12 **Y mae'r ffurflen yn ymwneud â** chyfrifon y CT am y flwyddyn ariannol 2009-10, wedi ei hanfon at yr Archwilwyr Allanol BDO Stoy Hayward Southampton i'w hystyried.

9.13 **Archwiliad Ariannol Mewnol**: **Penderfyniad**- y Maer i wirio'r holl daliadau'r Cyngor Tref, drwy gyfeirio at y datganiadau banc, bonion siec, anfonebau a'r cofnodion. Y Maer i wirio'r cyfrifon o Ebrill tan Medi, ac yn fisol ar ôl hynny.

9.14 **Derbyniwyd llythyr o ddiolch** gan Nikki Mead, Arweinyddes y Clwb Brownies, Llambed am y cyfraniad diweddar o £50.00 ar gyfer ei Chronfa Canmlwyddaint Gwersyll y Geidiau. Bu'r digwyddiad yn gyfle amhrisiadwy iddi gyfarfod geidiau eraill o gwmpas y byd, a phrofiad i gofio a'i drysori.

9.15 **Derbyniwyd llythyr o ddiolch** hefyd gan *Shelter Cymru* am y rhodd diweddar o £25.00

10. IS-BWYLLGORAU

10.1 <u>Llwybrau Cerdded + Parc-yr-Orsedd</u>

10.1.1 Parc-yr-Orsedd

Cwrs Hyfforddi Archwilio Meysydd Chwarae Gweithredol: 25/26/27 Hydref 2010. Y mae cynlluniau ar y gweill i'r Cyng. Chris Thomas i fynychu'r cwrs

10.1.2 **Y mae angen ail-glymu bin** i'r llawr a hefyd cloriau newydd ar gyfer y biniau: Oherwydd absenoldeb y Cyng. C Thomas ni sefydlwyd os oedd y mater wedi derbyn sylw.

10.1.3 **Heb eu cyflawni cyn belled:**

- **Masg ar gyfer y gât**: Mynedfa Heol y Gogledd;
- **Atgyweirio'r gât** ar fynedfa Bryn-yr-Eglwys a
- **Dod o hyd i** amnewidiad i'r asyn pren.

10.1.4 Archwiliad Meysydd Chwarae yn flynyddol CSC: yn cael ei gario allan yn ystod y dyfodol gan Digley Associates am dâl o £45 + TAW.

10.2 <u>Camerau TCC</u>

Adroddiad Misol Awst 2010: Bu yna 2 gais i arsylwi ar ddeunydd digidol yn ymwneud ag ysgarmes (18.08.2010) ac ymosodiad (15.08.2010). Roedd yr adnodd ffocws heb fod ar gael ar un o'r camera am un diwrnod (9.08.2010).

10.3 **<u>Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi</u>**
Cofnodion ynghlwm o'r cyfarfod o'r 15fed o Fedi.

11. U.F.A.

11.1 **Trafodwyd strwythur Agenda'r Cyngor Tref.** O leiaf dri diwrnod clir cyn pob cyfarfod o'r cyngor neu bwyllgor, dylai cynghorwyr dderbyn yr agenda. Pennir y tri diwrnod clir yn y gyfraith oherwydd mae'n bwysig cael eich hysbysu am y materion i'w trafod. Ni ellir ychwaegu pynciau y mae angen dod i benderfyniad yn eu cylch ar yr agenda, ar ôl y terfyn amser o dri diwrnod clir; rhaid iddynt aros am gyfarfod arall.

Yn ôl arfer da a'r wybodaeth wedi ei gynnwys yn y *Canllawiau y Cynghorydd Da*, Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol crybwyllwyd y dylai eitemau ar yr agenda gael ei rhestru. Dylai pob eitem ar yr agenda nodi'n glir beth y mae disgwyl i bob cynghorydd ei wneud a bod yn fanwl gywir ynghylch y pwnc i'w drafod. Penderfynwyd i barhau i restru materion megis *Materion yn Codi, Gohebiaeth* a hefyd *Ceisiadau Cynllunio* a *Chyllid*. O dan UFA os bydd angen penderfyniad ar unrhyw fater, dylai cynghorwyr drosglwyddo'r gwybodaeth at law'r clerc o leiaf 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod er mwyn ei gynnwys yn yr agenda, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Bydd holl faterion eraill a drafodir yn cael eu nodi er gwybodaeth yn unig. Roedd rhai aelodau o'r farn os na fyddai unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â ryw fater dan sylw, ni ddylid ei gynnwys ar agenda'r mis hwnnw ee Arwyddion y Dref. Cafodd materion eu cynnwys yn y gorffennol i atgofio cynghorwyr o faterion na ddaethpwyd i benderfyniad ynglŷn â hwy.

11.2 **Bu i'r Cyng. John Davies atgofio** aelodau o'r Gwasanaeth Dydd Sul Y Cofio a gynhelir ar Ddydd Sul 14eg o Dachwedd. *I drafod ymhellach yn ystod y Cyfarfod nesaf.*

Bu i'r Cyfarfod ddirwyn i ben am 10.00pm.

12. DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

12.1 **Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi: Nos Fercher 20fed o Hydref am 6.00pm yn Swyddfa Menter Llambed.**

12.2 **Cyfarfod Misol nesaf**: **Nos lau 28ain o Hydref am 7.30pm**

----------(Arwyddwyd/Dyddiad)